

The Project Gutenberg eBook of Cerddi'r Mynydd Du

This ebook is for the use of anyone anywhere in the United States and most other parts of the world at no cost and with almost no restrictions whatsoever. You may copy it, give it away or re-use it under the terms of the Project Gutenberg License included with this ebook or online at www.gutenberg.org. If you are not located in the United States, you'll have to check the laws of the country where you are located before using this eBook.

Title: Cerddi'r Mynydd Du

Compiler: called G. ap Lleision W. Griffiths


Photographer: Llew Morgan

Release date: September 6, 2007 [eBook #22528]

Language: Welsh

*** START OF THE PROJECT GUTENBERG EBOOK CERDDI'R MYNYDD DU ***

E-text prepared by Al Haines



**G. Davies, Ysw., Seattle, U.D., I'r hwn y
cyflwynir y gyfrol hon, a thrwyddo ef
i'r holl frodorion ar wasgar.**

Adgof dedwydd am a fu
Wna Fynydd Gwyn o'r Mynydd Du.

CERDDI'R MYNYDD DU

sef

CANEUON HEN A DIWEDDAR

**WEDI EU CASGLU A'U TREFNU GAN Y
PARCH. W. GRIFFITHS
(G. AP LLEISION), YSTRADGYNLAIS.**

**GYDA DARLUNIAU GAN
MR. LEW MORGAN.**

**ABERHONDDU:
Argraffwyd gan ROBT. READ,
yn Swyddfa'r "Brecon & Radnor Express," Y Bulwark.**

1913.

CYNWYSIAD.

Cyflwyniad
With Droed y Mynydd Du
Adgofion Mebyd
Llynau'r Giedd
Shon Wil Khys
Pen y Cribarth
Yn y Mawn ar ben y Mynydd
Bugail y Mynydd Du
Hela'r Twrch Trwyth
Afon Giedd
Ffaldau Moel Feity
Y Llynfell
Llyga d y Dydd ar Waen Ddolgam
O'r Niwl i'r Nef
Gwilym Shon
Llyn y Fan (Gwatwargerdd)
Ffrydiau Twrch
Angladd ar y Mynydd Du
Y Gof Bach
Ffynon y Brandi
Dafydd y Neuadd Las
Cyw
Llyn y Fan

Illustrations

G. Davies, Ysw., Seattle, U.D., I'r hwn y cyflwynir y gyfrol hon, a thrwyddo ef i'r holl frodorion ar wasgar. *Frontispiece*

Cerfiad mewn trawst perthynol i hen amaethdy Brynygroes, yn dynodi adeg ei adeiladu, ac enw ei breswlydd. Mae y lle wedi ei ddal gan yr un llinach am dros 400 o flynyddoedd.

Bryn-Y-Groes.

Mynwent Cwmgiedd.

Gored Y Giedd.

Trem I'r Mynydd Du.

Cwmgiedd (Rhan Isaf).

Ffynon-Y-Cwar.


Pont-Ynys-Twlc.

Penparc.

Llocior'r Defaid.

Maen Derwyddol Ger LLaw Llyn-Y-Fan Fawr.

LLyn-Y-Fan.



Cerfiad mewn trawst perthynol i hen amaethdy Brynygroes, yn dynodi adeg ei adeiladu, ac enw ei breswlydd. Mae y lle wedi ei ddal gan yr un llinach am dros 400 o flynyddoedd.



Bryn-Y-Groes.

CYFLWYNEDIG

1

**GRIFFITH DAVIES, Ysw.,
SEATTLE, WASHINGTON, AMERICA.**

At foneddwr—brodor glân,
Lyfr bychan, dos a'th gân,
Nid oes genyf anrheg well
Iddo ar Gyfandir pell
Na'r caneuon syml hyn—
Cerddi bro ei faboed gwyn.

Yma gwelodd gynta'r byd,
Giedd suai gwsg ei gryd,
Yn ei dyfroedd laslanc llon
Dysgodd gyntaf nofio'r don,
Ar ei glanau yfai ddysg,
Yn ei llynau daliai'r pysg.

Am flynyddau wedi hyn
Cerddai'r fro, a dringai'r bryn.
Anturiaethus fu ei daith
I'r pellderoedd lawer gwaith;
A chyfrinach anian gu
Glywodd ar y Mynydd Du.

Myn brodorion yr Hen Wlad
Adrodd beunydd mewn mwynhad
Am ei deithiau yma a thraw
Gyda'i lyfr yn ei law;
Hoffai wybod meddwl dyn,
Meddwl Duw yn fwy na'r un.

Haf a gauaf, tes a gwynt,
Carai fyn'd i'r Capel gynt,

Rhoes ei ddawn yn offrwm byw
Ar allorau sanctaidd Duw;
Casglodd yma fanna bras,
Canodd yma gerddi gras.

I'r cwrdd gweddi ffyddlawn bu,
Yn yr Ysgol, athraw cu;
Ei ddisgyblion dros y byd
Dystiant am ei wersi drud,
Hauodd ef ar lawer dol,
Tyf cynhauaf gwyn o'i ol.

Diwrnod yn y cwmwl trwm
Ydoedd hwnw yn y Cwm
Aeth a'r delfryd lanc di-ail
Tua gwlad machludiad haul;
Yn y cwmwl nid oedd gwên,
Wylai'r ieuanc, wylai'r hen.

Mae blynyddau maith er hyn,
Newid sydd ar fro a bryn;
Hen gyfoedion wedi myn'd,
Nid oes mwy ond *ambell* ffrynd,
Yntau fry ar dyrau llwydd
Gafodd fyd a Duw yn rhwydd.

Daw hanesion dros y dón,
Hanes glân fel ewyn hon,
Hanes calon eang, hael,
Fedra roi mor llon a chael,
Hanes bywyd sydd a'i fryd
Beunydd i brydferthu byd.

Frodor anwyl, hoff yn awr
Ganddo gofio llwybrau'r wawr,
Mae y Mynydd Du o hyd
Iddo'n gyfrinachau'i gyd,
Salmu'r neint sydd ar ei glyw—
Mynydd ei Wynfydau yw.

Lyfr bychan, dos a'th gân
Drosodd i'r boneddwr glân;
Nid oes genyf anrheg well
Iddo ar Gyfandir pell
Na'r caneuon syml hyn—
Cerddi gwlad ei faboed gwyn.

G. AP LLEISION.

Wrth Droed y Mynydd Du.

'Roedd blodau ar y dyffryn,
A Mai o dan y coed,
Yn chwareu gyda'r awel
Yn lion ac ysgafn droed:
Fe ganai y fwyalchen
Ar gangen las uwchben,
Heb wrando cyfrinachau serch
Y ddau oedd dan y pren.

Fe welsant flodau'n tyfu
Ar bedwar-ugain Mai,
Ond welodd neb er hynny,
Eu serch yn myn'd yn llai;
Adroddant wrth en gilydd
Adgofion blwyddi fu,
Pan rodient dan oleuni'r lloer
Hyd llethrau'r Mynydd Du.

""Rwy'n cofio'r noson gyntaf

I'th welais, f'anwyl un,
Pan deimlais yn fy nghalon
Fod mell't yn llygad mun;
'Rwy'n cofio'th wyllo'n rhedeg
Fel ewig dros yr allt,
A'r nos oedd yn dy lygad, Gwen,
A'r aur oedd yn dy wallt."

"Ond dofi wnaeth y fellten
Oedd yn dy lygad, Gwen,
Ac yn lle aur daeth eira
I aros ar dy ben:
Mi garaf eto'th lygad,
Fy nghariad, clyw fy ngair,
A charaf eto'r eira, Gwen,
Fel cerais gynt yr aur."

"Rwy'n cofio gofyn iti,
O dan y bedw bren,
A wnaethet fy mhriodi,
Addewaist tithau, Gwen:
Ysbio rhwng y cangau
'Roedd goleu llwyd y lloer,
A ninnau rhwng ei llewyrch, Gwen,
Heb deimlo'r gwynt yn oer."

"Rwy'n cofio'r boreu dedwydd,
A'r nef yn las uwchben,
Pan unwyd ein calonnau,
Fe gofi dithau, Gwen:
Ti wridaist wrth yr allor
Fel cwmwl cynta'r wawr;
A chrynu wnai fy nghalon, Gwen,
Fel gweli'm dwylaw'n awr."

"Fe gododd llawer storom,
Fe'n curwyd gan y dón,
Bu llawer pryder chwerw
Yn llechu dan ein bron;
Cyn hir â'r storom olaf
I blith y stormydd fu,
Ac huno gawn yn dawel, Gwen,
Wrth odreu'r Mynydd Du."

Abercrave.

R. BEYNOK, B.A.



MYNWENT CWMGIEDD.

MYNWENT CWMGIEDD.

Adgofion Mebyd.

Heda meddwl i'r gorphenol,
I baradwys bore oes,
Pan oedd bywyd yn ddymunol,
Pryd na chwythai awel groes;
Cysegredig oedd y twyni
Lle chwareuem amser gynt,
Nid oedd gofid wedi'i eni,
Nid oedd brad yn swm y gwynt.

Yr oedd engyl ar y llwybrau,
'N syllu arnom hyd y ffyrdd,
Eden ydoedd "Penyffaldau,"
Lle treuliasom oriau fyrdd;
Oriau glân heb wag oferedd
I lychwino'r tymhor gwyn;
Darn o'r nef yn ein hedmygedd
Oedd y llecyn prydferth hyn.

Cynal oedfa wedi'r oedfa
Wnelem ni ar ben y Bryn,
Nid oedd neb yn gwag-rodiana
Y nos Suliau sanctaidd hyn;
Pobi ieuainc yn finteioedd
Dyrent yma wedi'r cwrdd,
Gan orfoledd naws y nefoedd,
O! mor anhawdd oedd myn'd ffwrdd.

Cofio'r adeg pan neillduem
I ryw gonglau unig iawn,
Yno'n fynych yr arferem,
Heb un "dorf," berffeithio'n dawn;
Adrodd darnau y "Pen Chwarter,"
Er eu gloewi, wnelem 'nawr,
Yna wedyn gan ein hyder,
Nid oedd neb yn tori lawr.

Ambell noson deg o'r wythnos
Gwelid ni dan lwyni heirdd,
Fel "derwyddon" yr hen oesau
Yn cael orig gyda'r beirdd;
"Oriau'r Hwyr" ac "Oriau'r Bore,"
"Oriau Ereill" Ceiriog Hughes,
A ddarllenem am y gore,
Cyn bod son am *football news*.

Dysgu nyddu'r "cynghaneddion,"
A llinellu yn ddiball,
A chael ffrwd o grechwen iachus
Wrth ddarganfod ambell wall;
Hyn yw'r rheswm fod fy ardal
Wedi codi beirdd o nod,
Wrth fyfyrion pethau ofer
Ellir byth gyrhaeddyd clod.

Wrth ymlwybro tua'r Capel
Dros y bryn, y waun, a'r ddol,
Nid oedd calon un addolydd
Yn dychmygu pethau ffol;
Gwelem Dduw yn mrig y perthi
'N llosgi, megys Moses gynt,
Caem ein dwyfol ysbrydoli,
A'n gweddnewid ar ein hynt.

Seiniau adar bach y llwyni
Dorai'n fiwsig ar ein clyw,
Yr oedd natur yn ein tywys
Tuag allor cysegr Duw;
Megys Enoch gynt yn rhodio
Rhodiai tadau dros bob rhiw;
Dal cymundeb â'r ysbrydol

Ydyw rhodio gyda Duw.

GWILYM WYN.

Llynau'r Giedd.

Hen afon hoff! dy ganmol wnafl,
A chanaf i dy Lynau,
Cyrchleoedd difyr, llon, di-loes,
Fu rhai'n ar hyd yr oesau;
Bum innau'n chwareu lawer tro,
A nofio yn eu dyfroedd,
A hel eu pysg, ddydd mebyd ter,
Oedd imi'n haner nefoedd.

Llyn "dysgu nofio" oedd "Llyn Scwd,"
A brwd oedd plant am dano,
Nid oedd ei debyg yn y wlad
I chware' tra'd a dwylo';
Ei waelod welodd llawer un,
A blin fu'r ymdrech droion
I ffrwyno'r lli', a dysgu'n llon
I farchog ton yr afon.

"Llyn Gored" sydd fel gwydr-ddrych
Pan fyddo sych yr afon,
A'r graig uwchben wrth wel'd ei llun
Addolai'i hun yn gyson;
Ond pan ddaw llif i lawr drwy'r llyn
Yn ewyn gwyn cynddaredd,
Yn synu pawb bydd dyfroedd iach
Niagra fach Cwmgiedd.

Nid yw "Llyn Cwar" yn fawr ei faint,
Er cymaint son am dano,
Gogoniant hwn yw'r ffynnon lon
Sy'n llifo'n gyson iddo;
Rhyw gawg yw ef i ddal ei gwin
Yn mhoethder hin yr hafau,
Pan sych yr afon yn mhob man,
Llyn Cwar ddiwalla'n heisiau.

"Llyn Dafydd Morgan," dyma fe,
Mewn creigle mae ei wely,
A physg yr afon dd'ont yn llon
O dan ei don i gysgu;
Mae Dafydd Morgan yn ei fedd,
A Giedd eto'n llifo,
Ond aros mae y llyn o hyd,
A'r byd yn myned heibio.

"Llyn Felin Fach" ar lawr y Cwm,
Mae heddyw'n llwm ei gylchoedd,
Mae'r felin gynt oedd wrth ei lif
Yn adfail er's canrifoedd;
Bu llawer rhod o dan ei don
Yn gyson ei throadau,
A holi'n segur mae o hyd—
Pa le mae yd y tadau?

Llyn dwfn yr "Olchfa," du ei liw,
Cymydog yw i'r mynydd,
A'r miloedd defaid yn yr ha'
A olchir yma'n ddedwydd;
Os du ei don, daw'r praidd yn wyn
I'r cnaif o'r llyn yn gyson,
A thra bo'r Mynydd Du, parhâ
Yr "Olchfa" yn yr afon.

Mae eto Lynau'n uwch i'r lan,

Ar ffordd y Fan a'r Carnau,
Y Cefn Mawr a'r Gareg Goch,
A glyw y croch raiadrau,
Dyfinder yn galw dyfinder sy'
Yn gry' ar hyd y mynydd,
A Giedd lama'n ewyn gwyn
O lyn i lyn i'r Werydd.

Cwmgiedd.
RHYS POWEL (*Yorath*).

Shon Wil Rhys.

'Rwyf yn awr mewn gwth o oedran,
Ac yn gwisgo'r blewyn brith,
Hen gymeriad hynod ydwyf,
Wedi'i fagu yn eich plith;
Nid oes neb sydd yn trigianu
Yn nghyffiniau afon Gwys
Wedi cerfio'i enw'n ddyfnach
Yn y wlad na Shon Wil Rhys.

Caled i mi a fu bywyd,
O'i gychwyniad hyd yn hyn,
Megys myrtwydd heb wên heulwen
Dan gysgodau dwfn y glyn;
Rhwyfo wyf mewn dyfroedd dyfnion,
Cyn ac wedi cym'ryd gwraig,
Ond 'rwyf fi a'r llong heb suddo,
Ac heb daro'n erbyn craig.

Os mai gwael yw'm gwedd yn fynych,
Os mai llwydaidd yw fy ngwisg,
Nid yw'n deg i neb i farnu
Gwerth y cnewlyn wrth y plisg;
Haera rhai na ches fy nghrasu'n
Ddigon caled, medde'n nhw,
Ond ni fu y rhai'n yn ngenau'r
Ffwrn o gwbl gwnaf fy llw.

Llawer coegyn sydd am wneuthur
Ffwl o honwyf lawer pryd,
Peidiwch chwi er hyn camsynied,
Y mae Shoni yma'i gyd;
Os yr ydwyf yn ddiwiwed,
Nid wyf fi i gyd yn ffol,
Nid y fi yw'r unig berson
Fu fel Dafydd yn nillad Saul.

Pan yn nghryfder nerth ac iechyd
Teithiais lawer ar fy hynt,
Trwy gul gymoedd a thros fryniau
I gyrddau mawr yr amser gynt;
Yno wylo, neidio, a moli,
A rhoi proc i'r hen Amen,
Rhoddais *oil* ar *wheel* y bregeth
Ganwaith cyn y doi i'r pen.

Mae'r pregethwyr doniol hyny
Bron i gyd yn llwch y llawr,
Yn adgofio am eu haeledd
Y mae llawer hen got fawr;
Nid oedd un pregethwr enwog
Yn y de na'r gogledd draw
Na fum i ryw dro yn rhywle
Gyda'r brawd yn ysgwyd llaw.

Hen bregethwyr tanllyd Cymru,
Yn y wlad ac yn y dref,
Oedd y dyddiau gwllithog hyny

Yn gynefin iawn am llef;
Os pregethwyr mwy dysgedig
A gyfodwyd yn ein plith,
Hen bregethwyr cynt, er hyny,
I Shon Rhys am fêl a blith.

'Rwyf yn awr yn Rhosydd Moab,
Bron a chyrhaedd pen fy nhaith,
Os yw'r llwybr yn gerygog,
Nid yw'r siwrnai ddim yn faith;
Os yw cefnfor f'oes yn arw,
Yn ddiangol af i'r lan,
Daw y porthladd clyd, dymunol,
I fy ngolwg yn y man.

Parch. D. ONLLWYN BRACE.

Pen y Cribarth.

Pwy, pwy a ddaw ar hyd y Garth,
I ben y Cribarth uchel?
I deg fwynhau prydawn-ddydd mwyn,
Ar war y clogwyn tawel,
Ac yfed iechyd dros ei fin,
O gwpan gwin yr awel.

Pwy, pwy a ddaw ar hyd y Garth,
I ben y Cribarth Talfrig?
I edrych ar y fywiog fro
Sydd dano yn weledig,
Ardaloedd eang hyd y môr
Yw'r oror estynedig.

Pwy, pwy a ddaw ar hyd y Garth,
I ben y Cribarth eto?
I dremio draw i ben y Fan,
'Does dim ond anian yno—
Yn fynydd mawr, a defaid mân,
A nentydd glân yn llifo.

Pwy, pwy a ddaw ar hyd y Garth,
I ben y Cribarth golau?
Mae hedd yn awr lle bu cyn hyn
Ddaeargryn yu y creigiau,
Cawn ddarllen ar bob careg bron
Hanesion o'r hen oesau.

Mae'n hyfryd myn'd ar hyd y Garth,
I ben y Cribarth beunydd,
Ac uno ym mheroriaeth lon
Alawon yr ehedydd;
Tra'r byd yn mhell, a'r nef gerllaw,
Pwy na ddaw yn addolydd?

Maesyderi, Abercrave.
T. J. DAVIES (*Iscoed*).

Yn y Mawn ar ben y Mynydd.

Ar y mynydd yr emynaf,
Ar faen sedd mewn hedd mwyneiddiaf;
Rhoddaf alaw ar ddu foelydd,
Yn y mawn ar ben y mynydd.

Awel bur a haul y boreu,
Yma geir fel am y goreu,
Yn rhoi yni i'r awenydd,
Yn y mawn ar ben y mynydd.


Ond, er hyny, nid yr anial
Mawnog hwn yw'r man i gynal
Hwyl y gwanwyn hael ei gynydd,
Yn y mawn ar ben y mynydd.

Ar y bryniau mawr wybrenol
Mae dystawrwydd mud, ystyriol,
Yn sobreiddio naws boreu-ddydd,
Yn y mawn ar ben y mynydd.

Ni cheir cor yn chwareu carol
Yn y llwyn yn llu awenol;
Mae cor mwyn y llwyn yn llonydd
Yn y mawn ar ben y mynydd.


Chwery *un* â chywir anian,
Ei grwth unig wrtho'i hunan;
Cu iawn ydyw cân ehedydd
Yn y mawn ar ben y mynydd.

Ef yw cerddor dor y daran,
Difraw troedia fro y trydan;
Bwria'i unawd o'r wybrenydd,
Yn y mawn ar ben y mynydd.



GORED Y GIEDD.

GORED Y GIEDD.



TREM I'R MYNYDD DU.

TREM I'R MYNYDD DU.

O bell clywir y gog dirion,

Gyda'r awel o'r godreun,
Efo moliant haf ymwelydd,
Yn y mawn ar ben y mynydd.

Draw ac yma drwy y cymoedd,
Cri a glywir o'r creigleoedd,
Bywiog alaw y bugeilydd,
Yn y mawn ar ben y mynydd.

Truman cribog, muriog, mawrion,
A'u hesgeiriau yn ysgyrion,
Yma wylant uwch y moelydd,
Yn y mawn ar ben y mynydd.

Metha'r haf a'i fwynaf wenau,
Wyrddu llen i ben y banau;
Oeda'r gauaf yn dragywydd,
Yn y mawn ar ben y mynydd.

Ymherodraeth y mawr wywdra,
Heb eginyn bywiog wena;
Lle ni chawn na llwyn na chynydd,
Yn y mawn ar ben y mynydd.

Ac ar fynwes cwr y fawnog
Torwyd lluniau traed y llwynog,
Heibio hwylia yn ysbeilydd,
Yn y mawn ar ben y mynydd.

Ar y clogwyn mawr cilwgus
Haf awelon sydd yn felus,
A chael enyd fach o lonydd,
Yn y mawn ar ben y mynydd.

Mwynhau heddwch y mynyddoedd,
A mwynderau y mawndiroedd,
Sy'n baradwys iawn i brydydd,
Yn y mawn ar ben y mynydd.

GWYDDERIG.

Bugail y Mynydd Du.

Rhys oedd bugail y Mynydd Du,
A theilwng fab y wawrddydd,
Yn nghwmni Toss, ei hanes fu
Fel chwedl ar y mynydd.

Arferai godi gyda'r haul,
Pan ddelai 'r wawr i'r Bannau,
A mynai yn ei belydr glân
Gael bedydd tan bob borau.

Hyd Fawnen Gwys a'r Esgair Ddu
Fe ddeadellai'r defaid,
A Toss yn barod, wrth ei law,
I wneud ei arch a'i amnaid.

Y gauaf fel yr haf o hyd
Bu ef yn ffyddlon iddynt,
Wynebai storm Bwlch-adwy'r-gwynt,
A dryccin eira, drostynt.

A chalon ysgafn oedai'n hir
Yn awyr iach y brynau,
Tra'r awel bur a'i phwyntyl llon
Yn lliwio'n goch ei ruddiau.

Fe garodd edrych dros y ddôl
Draw i bellderau'r mynydd,
A gwrando swm y nentydd byw

Yn galw ar eu gilydd.

Fe godai'i lais mewn hapus gân
O ddiolchiadau calon,
A chododd allor lawer gwaith
Ar ben y Cerrig Coegion.

Ar ben y mynydd—pell o'r dref,
Nef oedd agosaf iddo,
Newyddion byd a aent yn hen
Wrth deithio tuag ato.

Felused iddo yn yr hwyr
Oedd cysgod clyd ei fwthyn,
A Men ei briod wrth y tan
Ar aelwyd y Twyn Melyn.

Aeth llawer gauaf dros ei ben
Yn stormydd ar y bryniau,
Cyn iddo groesi dros y glyn
I wlad yr hafddydd golau.

Mae Men ac yntau yn y bedd,
Ac adfail yw y bwthyn,
Ond gwena'r haul a brefa'r praidd
O hyd ar ben Twyn Melyn.

Abercrave.

RHYS DAVIES (*Ap Brychan*).

Hela'r Twrch Trwyth.

(Addawodd Olwen briodi Cilhwch os'y llwyddai i ddwyn y gwellaif a'r ellyn arian oedd yn nhalcen Twrch Trwyth iddi. Aeth Cilhwch at Arthur i geisio cymhorth. Galwodd Arthur ei dywysogion ynghyd i'r helfa. Llwyddwyd ar ol ymdrech galed a chyfnod hir o hela o'r Iwerddon drwy Gymru i Cernyw i sierhau a geisiai Olwen. Ond diangodd y Twrch a'i fywyd ganddo.—MABINOGION.)

Croesodd yr helfa y Mynydd Du, ac oddiwrth hyn y deillia yr enw Cwmtwrch.

Udganodd yr helgorn ar fynydd a bryn,
A'i swm dros y moroedd adseiniodd yn syn,
A chododd y gwledydd yn llwyth ar ol llwyth,
Ar alwad ein Harthur i hela'r Twrch Trwyth.

Daeth gwyr Ynys Prydain ynghyd o'r tair cainc,
A dewrion gwyr Llydaw, a Norman a Ffrainc,
A'u helgwn a'u gwaedgwn yn naw cant ac wyth,
Yn blysiu'n angerddol am waed y Twrch Trwyth.

Marchogion a groesent y tonau yn awr
Mewn rhwysg i'r Iwerddon a'r haf ar y llawr,
A bloeddiar Gwyddelod—"Daeth dydd talu'r pwyth,
Ac Arthur i'n gwared o law y Twrch Trwyth."

Yn nghraig Esgair oerfel rhoi helsain wnai'r cwn,
A'r Twrch a'i saith berchyll a glywent y swm.
A chnoi a thraflyncu y ddaear wnai'r wyth,
A chrynodd yr Ynys dan rhoch y Twrch Trwyth.

Dechreuodd yr helfa a hela fu'n awr
O foreu hyd nos ac o'r nos hyd y wawr.
A deuparth yr Ynys a wnaed yn ddi-ffrwyth,
Gan wenwyn llysnafedd o enau Twrch Trwyth.

Trwy'r mor o'r Iwerddon i Gymru ar hynt
Troes Twrch ei gyfeiriad a'i wrych yn y gwynt,
A'r helwyr yn dilvn—ni fu y fath lwyth
O wyn ar y tonau ag ewyn Twrch Trwyth.


Yn Aberdaugleddyf pan glaniodd y baedd,
Bu dychryn drwy'r dalaeth ac alaeth a gwaedd.

A dyn ac anifail, ac egin a ffrwyth,
Ddifrodwyd o'r ddaear dan ddanedd Twrch Trwyth.

O Benfro i Llwchwr y brysiodd 'rol hyn,
Ac helwyr a helgwn yn dilyn yn dyn.
Pum perchyll wrth Aman a laddwyd o'r wyth,
A ffroeni'n ffyrnicach a wnai y Twrch Trwyth.

Medd ef wrth ei berchyll, "awn heibio Ddolgam,
Llwynmoch a Chwmclyd a dialwn ein cam,
A thaflwn holl greigiau'r Gellie'n un llwyth,
Yn garnedd marwolaeth ar helwyr Twrch Trwyth."

Ofnadwy fu'r ymdrech yn nghwmwd Sarnfan,
Drwy'r erchyll ddyfnderau hyd fro Craig-y-Fran.
Dattodai y creigiau yn bwyth ar ol pwyth
Dan wellaif mawr miniog yn nhalcen Twrch Trwyth.



CWMGIEDD (RHAN ISAF).

Y bryniau ysgythrog faluriwyd i lawr,
(Mae'r cread yn deilchion fan hono yn awr).
Marchogion a helgwn a grynent gan fwyth
Yn swm dirgryniadau o'chneidiau Twrch Trwyth.

Yn nghraig Tyle Garw bu'r Twrch ar fin tranc,
A rhanwyd ei berchyll, ond ef yn ei wanc
A groesodd i'r Tywi—yr olaf o'r wyth,
A'r awyr yn wefr o hela'r Twrch Trwyth.

A misoedd a biwyddi o hela a wnaed
Yr ellyn a'r gwellaif o'i dalcen a gaed,
Ond Arthur ddilynodd a gwaddill ei lwyth,
O'r Hafren i Cernyw ar ol y Twrch Trwyth.

Y Twrch a ddiflanodd 'does neb wyr i ble,
Ac Arthur yn Nghernyw mewn cwsg byth mae e'.
Ond tystio drwy'r oesoedd wna pob iaith a llwyth
Mai helpa ddychrynlyd oedd helpa Twrch Trwyth.

G. AP LLEISION.

Afon Giedd.

Mae afon chwyrn y Giedd
Yn tarddu yn y mawn,
Daw ar ei phen i waered
Dros greigydd enbyd iawn;
Ar gefn ei chroch raiadrau,

Ddiwrnod mawr ei lli,
Daw darn ar ddaro o'r creigiau
Yn 'sglyfaeth gyda hi.

Hi dwmla bobls mawrion,
Dynelli o bob rhyw,
A chaiff ei hadgyfnerthu
Gan afon rymus Cyw;
Mae'n myn'd dan wraidd y coedydd,
A charia'r rhai'n drachefn,
A diorsedda'r pontydd,
Nes gwneud y lle'n ddidrefn.

Un boreu yn Gorphenaf,
Mi gofiau yn ddilai,
Pan ddaeth ei llif dychrynlyd
I gym'ryd wyth o dai;
Y Cwm sy'n ofni'r afon
Byth wedyn ar y gwlaw,
A'r nos ni feiddia gysgu
Rhag arswyd llif a ddaw.

Ofnadwy ar ein clustiau
Yw swm ei chenllif hi,
A'r cerrig mawrion fflachiant
Yn wreichion yn ei lli';
Ei tharth a gwyd i fyny
Yn gwmwl tua'r nen,
A gwaedda yn gynddeiriog,
'Mi fynaf fod yn ben.'

Mae pawb yn cyfreithloni
Yr enw gafodd hi,
A chiaidd, ciaidd ydyw
O fewn ein dyddiau ni;
Ond Ef sy'n dal y wyntyll,
A'r dyfroedd yn Ei law,
Ostega ei chynddaredd
A'r gair bach hwnw, 'Taw.'

Os rhuo mae y Giedd
Am gael ei ffordd ei hun,
Da genym fod ei Harglwydd
Yn noddfa byth i ddyn;
Mae'r plant sydd ar ei glanau
Yn anwyl ganddo Ef,
A diogel yn mhob dryccin
Yw etholedig nef.

Wrth wel'd y gwyllt lifeiriant
Yn pasio drws fy nhwy,
Mae'r wers o flaen fy llygaid,
'Mod inau fel ei lli',
Yn myn'd i'r goriwaered,
I'r tragwyddoldeb pell;
O! Arglwydd, pan gaf orphwys,
Rho imi wlad sydd well.

Cwmgiedd.
HOWELL POWELL.

Ffaldau Moel Feity.

Wrth droed y Foel arddunol,
Ger murmur Tawe fwyn,
Mae'r Ffaldau llwyd, henafol,
Rhwnng meini braf a brwyn;
O'u cylch mae'r bryniau uchel
Yn gwenu uwch eu pen,
A'r Fan yn spio arnynt

Drwy gymyl yn y nen.

Mor swynol ydyw canfod,
Ar foreu hafddydd gwyn,
Y defaid dirifedi
Yn britho'r bryniau hyn;
Y'mysg y cerrig garw
Sy'n gestyll rhag y gwynt,
Llochesant rhag ystormydd
Dramwyant ar eu hynt.

Amaethwyr Crai a Llywel,
Ar ddydd 'crynhoi' y Fo'l,
A foreugyrchant yma,
Mi welir neb yn ol;
Daw hefyd wyr Llanddeusant
Ar eu ceffylau bach
I geisio'r defaid crwydrol,
A'u dwyn hwy adre'n iach.

Ceir gweled gwyr Glyntawe
A'u gyroedd yma'n dod,
Ni fu y fath brysurdeb
Mewn unrhyw fan erio'd:
Pob un a'i gi a welir
Yn casglu'r praidd o'r bron,
A'u dwyn i fewn i'r Ffaldau,
Rhwnng muriau cedyrn hon.

Ar ol eu dwyn i'r Ffaldau,
Bydd pawb yn brysur iawn,
Pob un yn dal ei eiddo
I'w Ffald ei hun a gawn;
Os digwydd ambell ddafad
Estronol yma ddod,
Bydd llawer llygad arni
Yn ceisio gwneud ei 'nhod.'

Wrth droi a thrafod llawer
Fe welir ambell un
O'r defaid, dros y muriau,
Yn cym'ryd ffordd ei hun;
Ac ar eu hól yn sydyn
Bydd tyrfa fawr o gwn,
A'r lle yn haleliwia
Byddarol gan y swm.

Doethineb cenedlaethau
O ffermwyr yma fu,
Yn traethu am hanesion
Helyntion Mynydd Du;
Adroddent am wrhydri
Yr hen fugeiliaid gynt,
Ac enwau'r cwn a glywir
O hyd yn myn'd drwy'r gwynt.

Mor ddedwydd ydyw bywyd
Cyffredin gwyr y wlad,
Yn heddwch y mynyddoedd
Mae iddynt wir fwynhad;
Fe gollir y bugeiliaid,
Rhai newydd ddaw o hyd,
Ond erys y mynyddoedd
Heb newid oesau'r byd.

Ystradgynlais.
LLEWELYN JONES.

Afonig a dardd yn ffrwd gref o'r ogof gerllaw
Castell Craig-y-nos.

Fuoch chwi wrth Danyrogof?
Welsoch chwi y temlau cain?
Glywsoch chwi gynghanedd Llynfell
Fel organ gref yn llanw rhain?

Welsoch chwi wrth droed y clogwyn
Fel y rhuthra ffrwd mor falch
I oleuni o dywyllwch
Llwybrau cudd y cerrig calch?

Bu yn hir yn nwf n gysgodion
Bro y gwyll—heb wawr na rhos;
Feiddia neb fyn'd hyd ei llwybrau
Unig yn rodfeydd y nos.

Carwn wybod peth o hanes
Gwlad heb flodyn ynddi hi,
Heb un deryn bach yn canu;
Heb un ganghen uwch ei lli.

Ond fe geidw ei chyfrinach,
Ni fyn son am ddim sy'n ol;
'Myn'd y'mlaen' yw hanes afon;
'Aros' ydyw hanes dol.

Dywedir fod ei dyfroedd gloew
Yn newid lliw cyn delo gwlaw;
Dyma broffwyd llwyd y Blaenau—
Wêl y ddrycin cyn y daw.

Ni wyr hi ddim am dymhorau,
Welodd hi erioed mor ha';
Ni fu gauaf yn ei rhwymo
Yng nghadwynau oer yr ia.

Y mae rhamant yn ei hanes,
Cuddio wna rhag gwawrddydd dlos,
Dim ond ym mhrydnawn ei bywyd
Gwel yr haul wrth Graig-y-nos.

Afon fechan, megis tithau,
Minau garwn deithio'n rydd,
Drwy gysgodion, i oleuni
Pen y daith yng Ngwlad y dydd.

Corrig Haffes.
MYFYR MAI.

Llygad y Dydd ar Waen Ddolgam.

Gem y ddôl yw'r tlws flodeuyn,
Wisga'n fore ar ei bron,
Mae'n gwresawu pob pelydryn
Ddaw o'r haul i'w fynwes lon,
Natur fu yn paentio'i aeliau
Gyda phluen awel rydd,
Wrth ymolchi mewn pelydrau
Gwyna amrant llygad dydd.

Lygad siriol lawn cyfaredd
Yn agored o fy mlaen;
Ei fychander yw ei fawredd,
A'i holl rwysg yw bod yn blaen;
Try i ffurf a lliw yr huan
Wrth gwmnia gydag ef,
Er dadblygu'u lygad gloew-lan,
Aros wna yn nhês y nef.

Lygad effro, nad yw'n hepiant
Nes yr huna anian dlos,
Yn ei wynder, wrtho'i hunan,
Gwena'r dydd a chysga'r nos;
Dysgwn wers y glân flodeuyn,
Yn y gwllith ei lygad ylch,
Fel na chenfydd un brycheuyn
Yn y llygaid sydd o'i gylch.

Lygad dydd, a chanwyll eurliw
Yn ei ganol, megis tân,
Ai nid heulrod glaswellt ydyw
Egyr ag ymylwe mân?
Er ei fod yn nghanol tyrfa
O'i wyn-frodyr ar y waen,
Wrth yr un ni chenfigena,
Mae ei burdeb yn ddi-staen.

Flodyn gwylaidd, byth ni ddringa
Ben y clawdd am sylw'r byd,
Mewn dinodedd y cartrefa,
Gyda'r blodau lleia'i gyd;
Hwn wrth fyw mewn gostyngeiddrwydd
Ddysga wersi i lawer un,
A ddisgynodd i ddinodedd
Wrth wneud duw o hono'i hun.

Dena lygad rhyw forwynig,
Sytha'i sendyl yn y gwllith,
Wrth dramwyo'r llwybr unig
Gyda'r wawr i gyrchu'r blith;
Plyga'n wylaidd i anwylo
Blodyn siriol 'gwaen Ddolgam,'
Am fod arall yn blodeuo
Ar hoff fedd ei thad a'i mam.

Anwyl flodyn, anhawdd cefnu,
Gan ei adael ar y ddôl,
Wrth fiarwelio, 'rwyf yn credu
Ei fod yn syllu ar fy ol;
O! am fyw ei fywyd gloew,
Gyda chalon onest, rydd,
Fel y gallwn, cyn fy marw,
Ddod yn wyn fel Llygad Dydd.

GWILYM WYN.

O'r Niwl i'r Nef.

[Achlysurwyd y gân dyner hon gan farwolaeth llanc ieuanc o Abercraf ar ei flordd yn ol o Lyn-y-Fan. Darfu iddo ef a dau lanc arall gollu eu ffordd yn y niwl. Cyrhaeddodd ei gyfeillion adref yn fyw, ond ar ol tridiau o ymchwil deuwyd o hyd i'w gorph et yn ymyl afon Twrch. Yr oedd ar ei berson ar y pryd Destament Cymraeg a nifer o draethodau crefyddol.]

Rwy'n mynd, fy nhad a mam,
I wlad na ddof yn ol;
'Rol teithio llawer cam
Dros lawer bryn a dôl.
Rwyf wedi blino'n lân,
Fy nerth sydd yn gwanhau,
Mae afon o fy mlaen,
A niwl o'm cylch yn cau.
Tuhwnt i'r Mynydd Du,
Rwy'n gweld rhyw hyfryd wlad,
A thuag atti hi
Rwy'n mynd, fy mam a nhad.

Rwyf wedi colli 'm ffordd,
Fy ffryndiau sydd ar goll,
A minnau yn y nos

Yn chwilio am danynt oll.
Ond nid oes un a ddaw
I'm cwrdd yr ochr hyn,
Ond mae yr ochr draw
Yn llawn o engyl gwyn.
Ac fel yn dweud i gyd,
Na chaf fi unrhyw gam,
Rwy'n mynd i'r bythol fyd,
Ffarwel, fy nhad a mam.

Mae afon o fy mlaen,
Rwy'n clywed swm y don;
Rwy'n gweld y rhai sy'n byw
Tuhwnt i ffrydiau hon.
Mae melus hun yn dod,
'Rol dydd o ludded maith,
A minnau 'n teimlo fod
Gorphwysfa ar ben y daith.
I groesi 'rochr draw,
Nid oes ond megis cam,
Rwy'n mynd i'r byd a ddaw,
Ffarwel, ffarwel fy mam.

WATCYN WYN.

Gwilym Shon.

Mae Gwilym Shôn yn awr yn hen,
Mae'r eira ar ei ben,
Yn araf ddisgyn dros ei en
Nes gwneyd ei farf yn wen;
Ar fin y nant mae'i fwthyn tlawd
Yng nghwmwd godreu'r bryn,
Ni wyr rhwysgfawredd pell a ffawd
Ddim am y bwthyn hyn.

Bob nos fe gwsg ar wely gwellt,
A chysgu'n esmwyth wna,
Hyd nes daw'r wawrddydd drwy y dellt
I ddywedyd "Bore da;"
Ac yn ei goleu daw i lawr,
Ac ar ei liniau trwm
Gweddio wna yn ngoleu'r wawr
Gerllaw ei wely llwm.

Un hoff o'r mynydd yw efe,
Bydd yno'n fore iawn
O olwg pobman ond y Ne',
Rhwng y twmpathau mawn;
Heb wybod am rwysgfawredd dyn,
Na moethau'r palas gwych,
Mae yno'n siarad wrtho'i hun,
A bwyta'i damaid sych.

Bu ef mewn gweddi lawer gwaith
Yng nghysgod llwyn o frwyn,
A bu yr awel ar ei thaith
Yn ewrando ar ei gwyn.
Fe safodd ganwaith ar y bryn
I gofio'r dyddiau gynt,
Ac mewn myfyrdod elai'n syn
Cyn cychwyn ar ei hynt.

Yn fore, bore, bydd ar daith
Yn rhodio'i lwybr cam,
A chadd foreufwyd lawer gwaith
Yn mwthyn bach fy mam;
Fe wyddai mam heb unrhyw gais
Pa bryd oedd Shôn am fwyd,
Hi adnabyddai wrth ei lais,

Ac wrth ei wyneb llwyd,
A phan yn bwyta'i damaid mwyn,
A ninnau'r plant gerllaw,
Murmurai Shôn mewn banner cwya
Am bethau'r byd a ddaw.

Wrth rodio'r caeau 'nol a blaen
Nid yw am gwrdd a'r un;
Fe groesa ef ar draws y waen
Er cael bod wrtho'i hun;
A siarad mae pan ar ei daith
O hyd mewn distaw dôn,
Nes wy'n dychmygu ambell waith
Fod angel gyda Shôn.

Mae'r plant yn dianc rhagddo'n syn,
Yn cilio tua'r pant,
Ac yntau dianc fry i'r bryn,
Yn cilio rhag y plant.
Diniwed yw, yn ofni'r byd
Ei wawdio ar ei hynt,
Tra'n gafael mae ei serch o hyd
'Nol yn yr amser gynt.

'Does ganddo awrlais yn y byd,
Na modd ychwaith i'w chael,
Ond adnabydda ef o hyd
Yr amser wrth yr haul;
Proffwydo'r tywydd teg o draw,
Ni fethodd ef erio'd,
A chanfod mae y gawod wlaw
Ddiwrnodau cyn ei dod.

Mae yn y capel erbyn pryd
Ar fore Sabboth Duw,
Y mae ei weddi dawel, fud,
Yn gwneyd ei fawl yn fyw;
Ac os dechreua cennad Iôn
Ddarlunio gwerth y gwaed,
Er heb Amen, canfyddir Shôn
Yn codi ar ei draed.

Aeth dynion ieuainc caled, hy',
Er cael difyrrwch ffol
Un hwyr i wawdio wrth ei dy,—
Ond troisant yn eu hol
A braw a gwelwder ar bob gwedd,
Can's torrodd ar eu clyw—
Swn Shôn o ymyl gwlad yr hedd
Yn galw ar ei Dduw.

Fry yn yr unig anial gwm
Dan goedydd cnau ac ynn,
Y mae adfeilion bwthyn llwm
Yng nghanol drain a chwyn;
A Gwilym Shôn a ddaw bob dydd
I'r waen uwchlaw y ty,
Ac edrych ar yr adfail bydd
A chofio'r dyddiau fu.

Ac os wyt ti, ddarlennydd mwyn,
Am ofyn im paham,—
O! gwel yn adfail dan y llwyn,—
Hen fwth ei dad a'i fam.
Bu yna'n chwareu'n blentyn llon,
Fe dyfodd yna'n ddyn,
Mae gweld y lle yn glwyf i'w fron,
Galara wrtho'i hun.

Mae'r danadl lle bu'r aelwyd gynt,
A'r drysni lle bu'r tân,
Bu yno'n gwrando swm y gwynt,
Bu yno'n canu cân,
A chyda'r teulu lawer gwaith
Bu'n plygu ar ei lin,
Cyn gwybod am ofidiau'r daith

Ar amgylchiadau blin.

Dan ormes colli wnaeth ei dad,
Y cartref llawn o heddi;
Yn fuan ei rieni mad
Orweddent yn y bedd.
Fe garai eneth dros y bryn
A chariad bore oes,—
Canfyddodd hithau'n mynd 'r glyn
A'i gafaél yn y groes.

Ei galon dan y saethau dwys
A dorrai fel ei rudd,
Ei fywyd oll o dau y pwys
Ai beunydd yn fwy prudd,
Ond daw drwy'r storom waetha 'rioed
Ar fore gauaf llwm
I weld yr adfail dan y coed,
Ac wylo tua'r cwm;
A dyry dro i ben y bryn
Yn llaw clwyfedig serch,
I weld o draw y bwthyn gwyn,
Hen gartre'i gariad ferch.

BEN DAVIES.

Llyn y Fan. (GWATWARGERDD).

Mae'r ienctyd yn ffeindio anrhydedd wrth rodio,
'Does dim yn eu blino tra'u dwylo yn rhydd,
Ond dilyn eu trwynau i fyny i'r Banau
I weled y Llynau—dwr llonydd.

Mae yno berllanau o gwmpas y Llynau,
Coed lemon, coed 'falau, yn flodau i'r brig,
Ar dir yn y dwyrain yn ngolwg yr heulwen
Hwy ledan' fel Eden fawledig.

Mae'r carne fel gerddi o ddail y Dwmdili,
Y riw a'r rhosmari yn tyfu o'r don;
Pob brigyn per ogle yn rhedeg o'r hade,
Ac amryw o lysiau gwyrddleision.

Rhyfeddod diddarfod oedd gwel'd y gwylanod
Yn llusgo'r llyswenod, llwyth hynod, o'u lle;
A'r fulfran oedd barod i frathu'r brithyllod,
Wrth neidio at blufod y Blaene.

Nid dyfal ei dafod all rifo'r rhyfeddod,
Na'u cofio 'nol eu canfod yn nghysgod y gwlydd;
Yr hwyaid sydd wylltion, a'r gwyddau ni a'u gwelsom
Yn nofio yn nghrochan y Crychydd.

Os nad y'ch chwi'n credu ini gael y fath rali
Wrth dreulio ein carne drwy'r cernydd o dre,
Wel, codwch eich cilwg i ben y Fan amlwg,
Cewch wel'd yr un olwg a nine.

PWY YW'R AWDWR?

Ffrydiau Twrch.

Mae'r testyn wedi'i enwi

Ffrydiau Twrch,
A'r gronfa wedi tori
Ffrydiau Twrch;
Mae'r dyfroedd rhwng y cerig
Yn ffrydio'n grych berwedig
O rywle anweledig
Ym mol y bryn mynyddig
Uwchlaw'r Cellie hylig,
A'i dwrf fel taran ffyrnig
Ar godiad tir rhwygedig,
A chreigiau maluriedig
Sydd yno'n rhesi unig
O gedyrn arfogedig
Yn gwylio'r dderwen dewfrig
Eistedda'n llwyn caeadfrig,
A'r pigau melldigedig,
A'r blodau caboledig,
A noda fan synedig
Ffrydiau Twrch.


A welsoch chwi y Ffrydiau?
Ffrydiau Twrch;
A daniwyd chwi gan donau
Ffrydiau Twrch?
Os naddo, ewch i'w gweled
Yn gyru dros y gwa'red
Yn ewyn gwyn i waered
Gan boeri ar eu pared,
A lluchio'r meini'n lluched
O hirbell yn ddiarbed;
Y cenllif gwyllt wrth fyned
Sy'n llamu bob yn llymed,
Gan rhwygo mal rhyw oged
Y tiroedd, gan ddweyd, Tyred
I'r moroedd er ymwared,
Fe chwala'r bryn cewch weled,
A'i feini ânt mor faned
A hoelion Tudur Aled;
Mac Twrch yn methu cerdded
O achos ei mawr syched,
A chwter James, er gwyched,
A safant oll nes yfed
Ffrydiau Twrch.

O'r Mynydd Du daw allan
Ffrydiau Twrch,
Yn fwrlwm gloew purlan,
Ffrydiau Twrch,
Gan rhuo, rhuo beunydd
A llu o ladron lledrydd
A'n gwllwm gyda'u gilydd
I chwilio am gorlennydd
Y defaid dofion beunydd,
A'u dal a'u dwyn o'r dolydd,
A'u crogi rhwng y creigydd,
A'u gwerthu er eu gwarthrudd,
A chuddio'u crwyn rhag cywilydd,
Ac arswyd yn y coryydd
Na ddaw eu gwir berchennydd
I wybod yn dragywydd
Am wal y drwg ymwelydd;
O! na bai i'r llifogydd
I beidio bod yn llonydd
Nes llifo dros eu glenydd,
A rhoddi pobo fedydd,
A boddi'r lladron llwydrudd,
Mi alwn hyn yn grefydd
Ffrydiau Twrch.



FFYNON-Y-CWAR.

FFYNON-Y-CWAR.



PONT-YNYS-TWLC.

PONT-YNYS-TWLC.

Parhâ i darddu'n gyson,
Ffrydiau Twrch,
Na syched byth dy ffynon,
Ffrydiau Twrch,
Ymlaen â thi, gan olchi
Y llygredd a'r budreddi
Sydd yn Nghwmtwrch yn croni,
Ac wrth y *George* boed iti
I aros o dosturi;
Hen Waterlw y cewri
Boed iti i ddifodi
Hen olion gwaed oddiarni,
A chario byth i golli
Yr hen esgidiau mawrfri
A gawsant eu pedoli
Fel carnau meirch Napoli
I gicio llawer bwli—
Rhai sy'n rhy faith i'w henwi,
A llawer wedi tewi;
O ganol eu drygioni
Boed iti loewi a gloewi
Y llefydd ffordd y llifi,
Nes bo Cwmtwrch yn codi
Ar unwaith o'i drueni
Mor lân, mor bur a chenlli
Ffrydiau Twrch.

PWY YW YR AWDWR?

Angladd ar y Mynydd Du.

Yn yr hon ateser pan fyddai brodor o Llanddeusant farw yn Ystradgynlais elai pobl yr Ystrad â'r corph dros y mynydd hyd Aberdeudwrch, a deuai pobl Llanddeusant i'w gyfarfod yno i'w ddwyn i ben y daith.

Droe y mynydd i Landdeusant,
Heibio'r Gareg Goch a'r Llwyn,
Araf, araf, â'r cynhebrwng
Hyd y llethrau rhwng y brwyn;
Adref dros y llwybr garw,
Brodor sydd yn troi yn ol,
Un o ddefaid iesu ydyw,
Ddyga angeu yn ei gol.

Myn'd dros orwel draw i orwel
Mae cynhebrwng prudd y sant,
Myn y galon wrth fyn'd heibio
Ddweyd ei chyni wrth bob nant;
Ar lechweddau unig anian,
O! mor dawel yw yr awr,
Myn'd a'r elor tua'r fynwent
Trwy gynteddoedd gwyn y wawr.

Dacw'r dorf yn Aberdeudwrch,
Lle try rhai yn ol i dref,
Canant yno'n iach i'w gilydd,
Gyda chanu mawl i'r nef;—
"Ffarwel, gyfeillion anwyl iawn,
Dros ennyd fechan ni 'madawn,
Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd
Yn Salem fry oddeutu'r bwrdd."
Myn yr hedydd ar ei aden
Uno yn y ffarwel brudd,
A rhoi odlau'r wawr i'r hwyrghan
Efo'i delyn fechan, gudd.

Gyrr y Cerrig Coegion hwythau
Emyn ateb ar eu hynt,
Hed yr emyn uwch y cymyl
Tua'r nef y'nggol y gwynt;
Fry, i fryniau iach y Wynfa,
Fry, ymhell tu draw i'r glyn,
Fe hebryngwyd sant o oror
Mynydd Du i Fynydd Gwyn.

Cefnymeusydd, Abercrave.
W. GWERNWY RICHARDS.

Y Gof Bach.

Ar lawrdir Cwmgiedd mor fyw yn fy nghof,
Yn ymyi yr afon yw'r hen efail gof;
A'r muriau yn llwydion, a'r heiyrn yn ystor,
A'r enwau cerfiedig ar hyd yr hen ddor.

Dyn bach o gorpholaeth oedd William y go',
Ychydig droedfeddi mewn plyg ydoedd o;
Ond er yn grymedig i'r byd dan ei faich,
'Roedd tân yn ei lygad, a dur yn ei fraich.

Gwr diwyd oedd William ar hyd ei oes hir,
A swm ei forthwylion fel clychau drwy'r tir;
Llwyr weithiau ei ddiwrnod ac ambell nos fawr
Bu'r efail yn wreichion hyd doriad y wawr.

Ni bu diniweittiach mewn efail yn bod,
Na neb yn hapusach waeth sut troai'r rhod;

'Roedd Martha ac yntau mewn llanw a thrai,
A'u gwenau bob amser fel blodau mis Mai.

Os byddai anifail dihwyl yn y fro,
Yr unig physigwr oedd William y go';
'Does undyn a wyr pa sawl un wnaeth e'n iach,
A ffroeni gwarogaeth wnai'r rhain i'r gof bach.

Fe drefnai wibdeithiau i'r Bannau bob haf,
A chodai y pentre i'r boreu teg, braf;
'Dyw taith i'r Cyfandir yn ddim byd yn awr
At daith y gof bach i ben y Fan Fawr.

Fe ddeuai'r merlynod ynghyd o bob parth,
Rhai buain o Balleg, rhai dofion o'r Garth;
A Dic, asyn Dosia, yn rhwym dan ei sach,
A ddysgai ufydd-dod—ddydd gwyl y gof bach.

Fel cadben yn arwain ei fyddin i'r gad,
Neu hyf anturiaethwr yn chwilio am wlad,
Y dygai ei fintai drwy'r corsydd a'r mawn,
A'r awel yn chwerthin drwy'r nef wrth ei ddawn.

'Roedd ganddo storïau—rhai doniol bob un,
A llawer un daclus o'i wead ei hun,
Storïau ei garu â lodes y Plas
"Yn y got a'r gwt fain a'r siaced gron las."


Mi'i clywais yn tystio, a phwy wyddai'n well?
Fod merlod y wlad yn ei adwaen o bell;
A rhedent pan gollent bedolau'n ddibaid
I'r fail at William i achwyn eu traed.

'Roedd William yn Gristion, a'i enaid bob dydd
Yn mwg yr hen efail yn gwynu mewn ffydd;
A llawer i noson ystyriem hi'n fraint
I glywed ei weddi yn nghyrddau y saint.


Bu'n iechyd i galon ac ysbryd y lle
Ei ddilyn i'r mynydd a'i wrando yn nhre';
'Roedd llwybrau cyfiawnder o hyd dan ei draed,
A bendith yn stor yn ei gynghor a gaed.

Mae'r afon o hyd yn myn'd drwy y lle,
A'r efail ar lawr, a'r gof bach yn y ne';
Ond adgof sy'n gofyn yn brudd ar ei hynt—
Pa'm na bae'r oes nawr fel yn yr hen oesau gynt?

G. AP LLEISION.



PENPARC.



LLOCIO'R DEFAID.

Ffynon y Brandi.

Ar ochr bryn yn Llywel lon
Mae'r ffynon loyw, lonydd,
A'i dyfroedd pur r'ont flas a blys
I hwylus wyr y mynydd;
O'r graig fe dardd ei phurol win,
Ar fin y ffordd mor handi,
Ni pherchir ffynon yn y plwy'
Yn fwy na Ffynon Brandi.

Er gwres yr haul a phoethder ha',
O! fel yr ia mae'r ffynon,
A pherlau grisial ar ei grudd
O ddydd i ddydd yn gyson;
Fe fethodd haul, a methu wna,
Fe ddigia wrth ei hoerni,
A gwel'd ei llun mewn dwfr oer
Wna'r lloer wrth Ffynon Brandi.

Yn nhymor haf canolddydd poeth,
Bu'n foeth i lawer crwydryn,
A llawer *gipsy* ar ei chlun
A wlychodd fin ei phlentyn;
Bugeiliaid ac ymdeithwyr sy',
A gweithwyr hy' Rhys Dafis,
Yn mon y mawn a'u bara chaws,
Yn lapio naws ei gwefus.

Tafarndy yw o oes i oes,
Heb feddwdod, *noise*, na *nonsense*,
Nis gall cyfreithiau Prydain Fawr
Fyth dori lawr y *licence*;
Y graig yw *counter* cryf y *bar*,
Ac ar ei gwar mae'r ffynon,
A Duw sy'n tynu o'r *machine*
Y gwin i'r daearolion.

Y tarw Scotch, a'r Cymro gwyach,
A brith-goch ych Glasfynydd,
Y pony wyllt, a'r lodes lân,
A defaid mân y mynydd,
A phlant boch-cochion, heblaw Toss,
A Rover, Moss, a Handi,
Pob un yn dyfod yn ei dro
I dapo'r faril frandi.

Pe bae masnachwyr Llundain fawr
Yn dyfod lawr i Gymru,

Ac i dafarndy'r Trianglas
I brofi blas y brandi,
Caent ruddiau fel y damasc coch,
Ac fel y gloch, fonwesau,
Ac iechyd hir i fagu mêr,
A chryfder yn ei lwynau.

Do, lawer gwaith am amser hir,
Pan yn rheoli'r heolydd,
Mi ddrachtiais inau wrth y *bar*,
Yn unig ar y mynydd;
Ar ol manylu ar ei min,
A sugno gwin o'i gwefus,
Ces fara brith a chlwt o gaws,
Drwy fyn'd ar draws Tom Harris.

Mae'r ffynon hon yn tarddu erio'd,
Er cyfnod creadigaeth,
A Duw ei Hun fu'n tapo'r graig
Yn ddirgel mewn rhagluniaeth;
Eistedda dirwest ar ei sedd
Yn lân ei gwedd i'n lloni,
Diolchwn Dduw tra fyddwn byw
Am Ffynon wiw y Brandi.

RHYS DAVIES (*Llew Llywel*).

Dafydd y Neuadd Las.

Mac genyf dyddyn bychan
Ar fron y Mynydd Du,
Bu'n gysgod i'm yn faban,
I'm tad, a thaid nhadcu.

Mi gerddais pan yn blentyn
Hyd lethrau'r mynydd mawr;
A sengais "droed yr ebol"
Yn llaith gan wlith y wawr.

Ar ben y Lorfa dawel
Chwareuwn gyda'r wyn;
A miwsig nant y mynydd
Yn llifo dros y llwyn.

Do, treuliais lawer orig
Ar lan yr afon iach;
A gwynfyd i fy nghalon
Oedd dal y brithyll bach.

Bum yno wedi hyny
Yn cael fy nal fy hun,
Ond er i'm gael fy nala,
Mi ddeliais inau un.

Ar ben y Lorfa dawel
Aeth Gwen a'm calon oll;
A gwelodd yr hen fynydd
Ddwy galon fach ar goll.

Ar dwyni'r Gareg Ddiddos,
Ac hyd y dyffryn bras,
Bu'r ddwy yn crwydro llawer
Cyn dod i'r Neuadd Las.

Aeth haner canrif heibio
Er daeth y rhain ynghyd,
Ond ieuanc yn y galon
Yw'r cariad cynta'i gyd.

Wrth ganu'r hen alawon
Ganasom gyda blas;

Un rhamant ydyw bywyd
Ar aelwyd Neuadd Las.

Cefnymeusydd, Abercraf.
RHYS DAVIES (*Ap Brychan*).

Cyw.

Ar ochr y Cribarth
Dwy afon fach sy'
Yn tarddu yn gyson
O fron Mynydd Du;
Cydredeg a dawnsio
Drwy'r ddôl mae y pâr,
A rhywun a'u henwodd
Yn geiliog a giar.

A chanu wna'r ceiliog
Yn llon yn y fro,
A'r iar sydd yn gregan
O hyd ar ei gro;
Chwareuant alawon
I'w gilydd heb ball,
A chanu a nesu
Mae'r naill at y llall.

'Nol caru a chanu
Drwy'r fawnen a'r pant,
Yn nghwlm tangnefedd
Ymuna'r ddwy nant;
A ffrwyth y briodas
Yw'r afon fach, fyw,
Sy'n rhedeg i'r Giedd,
A'i henw yw—Cyw.

Llyn y Fan.

Af i'r Bannau gyda'r wawrddydd,
Af yn llawen tua'r llyn,
Lle mae ysbryd hen draddodiad
Byth yn aros yn ei wyn:
Crwydraf wrth y dyfroedd grisial,
Yno i wrando ar y gwynt
Sydd yn cwyno yn hiraethus
Ar ol rhamant dyddiau gynt.

Lyn y Fan! pwy wyr ei hanes?
Pwy all ddweyd yr helynt fu
Ar y noson loergan gyntaf
Pan ddaeth ser i'r Mynydd Du
Pwy all ddenu'r graig i siarad
Am ei phrofiad, fore gwyn,
an y gwelodd hithau gyntaf
Arall graig yn nwr y llyn?

Ai rhyw afon fechan, unig,
Grwydrodd yma'n llesg a gwan,
Wedi colli'r ffordd i huno
Yn nhangnefedd craig y Fan?
Careg fechan yn y fynwent
Dd'wed am arall grwydryn cu,
Wedi colli'r llwybrau unig,
Hunodd ar y Mynydd Du.

Cân medelwyr ar y meusydd,
Gyda thoriad borau gwyn,

Ond mae'r gân o hyd yn marw
Wrth neshau i lan y llyn;
Unig, unig yw ei hanes,
Yma mae yn heddi i gyd,
Huna'n dawel yn y cysgod,
Wedi digio wrth y byd.

A fu adar y dryglinoedd
Yma'n hedfan ar eu hynt?
A fu'r dôn erioed yn gwynu
O dan fflangell lem y gwynt?
A fu udgorn hen y dymhestl
Yn adseinio ar ei lan?
Wyr ystormydd a chorwyntoedd
Am y ffordd i Lyn y Fan?

Nid oes yma swyn y lili,
Yma nid oes rhosyn gwiw,
Ond daw serch yn dirf ac iraidd,
Lle mae'r blodau'n methu byw;
Heb un llwybr ar y moelydd
I'w gyfeirio tua'r lan,
I'r unigedd a'r distawrwydd
Fe ddaeth serch i Lyn y Fan.

Gyda'i braidd mae'r bugail unig
Wrth y llyn yn rhodio'n rhydd,
Ond paham y ceidw'r defaid
Wrth y llyn ar hyd y dydd?
Nid yw'n clywed bref ddolefus
Dafad glwyfus ar y lan:
A fu bugail mor esgeulus
A Rhiwallon Llyn y Fan?

Wrth y Llyn gorwedda'r defaid,
Yno y breuddwydiant hwy:
Ond ni wyddant fod y bugail
Yn breuddwydio llawer mwy;
Beth yw'r pryder sy'n ei wyneb?
Fentrodd oen i'r dyfroedd glân?
Neu, a gollwyd un o'r defaid?
Pam mae'r bugail heb un gân?

'Does ond un all roi esboniad
Ar yr holl bryderon hyn:
Nis gall bugail fod yn llawen
Gyda'i galon yn y llyn:
Gwelodd yno feinir geinwen
Yn y dyfroedd teg, di-stwr,
Ac mae yntau fyth er hyny
Fwy na'i haner yn y dwr.

Torodd gwawr ar nos Rhiwallon,
Cadd ei galon eto'n ol:
Gwelwyd dau yn rhodio'n llawen
Un boreuddydd dros y ddol;
Ond fe wawriodd boreu arall
Ar Rhiwallon wedi hyn,
Pan y gwelwyd gwraig y bugail
Eto'n ol yn nwr y llyn.

Cilio 'mhell wnaeth biwyddi rhamant,
Cilio wnaeth y dyddiau gwyn,
Pan fu serch yn crynu'n ofnus
Wrth y dyfroedd gloewion hyn;
Nid oes heddyw un Rhiwallon
Yn bugeilio ar y lan,
Ond mae ysbryd hen draddodiad
Eto'n fyw wrth Lyn y Fan.

Abercraf.

Parch. R. BEYNON, B.A.

Ar y Banau.

Clychau'r wawr sy'n canu
Ar y Mynydd Du,
Cilia ser o'r llynoedd,
Loewon lu.

Fly yn mhyrth y bore
Clywaf hedydd bach,
Yn dihuno asbri'r
Awel iach.

Fel cawodydd arian
Ei felodi dyn,
Wna y mynydd imi'n
Fynydd gwyn.

Ffrydlif o hyawdledd
Yn y cwmwl gwyn;
Pe bai neb yn gwrando,
Canu fyn.

O! na bawn i'n hedydd,
Fyth yn llon fy llef,
Allwn ar adenydd
Holti'r nef.


Blodau'r Grug sy'n gwriddo
Yn eu cartre' cun,
Am fod cusan huan
Ar eu min.

Bu y nos yn wylo
Am fod tlysni nghudd,
Trodd y dagrau'n berlau
Ar eu grudd.

O! na bawn i'n flod'yn
Ar y mynydd pell,
Dal i berarogli,
Er yn mhell.



**MAEN DERWYDDOL GER LLAW LLYN-Y-FAN
FAWR**



LLYN-Y-FAN.

LLYN-Y-FAN.

Teimlaf ar y mynydd
Swyn yr amser gynt;
Clywaf Fabinogi
Yn y gwynt.

Clywaf rhwng y creigydd
Ymchwydd tonnau'r aig;
Gwelaf eu hysgrifen
Ar y graig.

Gwelaf graith y dymhestl
Ar y bryniau erch,
Clywaf hefyd furmur
Suon serch.

Gwelaf las y wybren,
Cofiaf lygad Gwen,
Syrthiaf i'w chyfrinedd
Dros ym mhen.

Gwen yn awr yw byrdwn
Cân yr hedydd myg;
Er ei mwyn y gwrida
Blodau'r Grug.

Sonia'r neint am dani
Rhwng y grug a'r brwyn;
Llwythog yw yr awel
Gan ei swyn.

Dilyn ei huloliaeth
Ar y bannau hyn
Wna y mynydd imi'n
Fynydd gwyn.

Ystradgynlais.
W. R. WILLIAMS.

Breuddwyd Adgof.

Rhyw noson yn fy mreuddwyd,
Yn esmwyth es am dro
Yn ol i gwmwd tawel
Fy ngenedigol fro,
A gwelwn Bontygiedd,
Heb fwthyn Pegi gynt,
A rhoes ochenaid hiraeth
Wrth basio yn y gwynt.

Es heibio'n brudd fy nghalon
I Blasycoed ar daith,
Ond Siams ni chefais yno,
Na'r dall basgedwr chwaith;
Gwag imi yr aneddau,
Heb un o'r cwmni llon,
A throais tua'r afon
I holi helynt hon.

Bu amser arni hithau
Yn amlwg wrth ei waith,
A gwelwn ol llifogydd
Ar hyd ei gwely llaith;
'Roedd hen athrofa nofio
Fydenwog Llyn y Sgwd,
Yn awr yn ynys goedig
Yn nghanol y ddwy ffrwd.

Es eto i Gae Ffynon,
Yr Arch, fu'n net ddigêl,
Lle'r aem i chwareu *rounders*
Yn ddedwydd gyda'r bel;
Ond, Ah! cauedig ydoedd,
Ac nid oedd cyfoed cu
Yn aros gyda'i "fando"
I son am bethau fu.

Mi deithiais eto i fyny
At efail y gof bach,
Lle buom lawer canwaith
Yn ymddigrifo'n iach;
Ond carnedd oedd yr efail
A'i bentan erbyn hyn,
A'r hen of bach duwiolaf
A aeth yn gerub gwyn.

Fe welais Craig-y-defaid,
'Roedd hon yr un o hyd,
Heb gyfnewidiad arni,
Er holl dreigliadau byd;
Y defaid arni borent
Yn ddifyr yn eu hedd,
Ond mae'r hen fugail gofiwn
Yn awr yn llwch y bedd.

Diosgais fy esgidiau
Wrth droi i'r fynwent brudd,
Ac hiraeth aeth yn gawod
O ddaagrau dros fy ngrudd;
Darllenaais ar y meini
Feddargraff tad a mam,
Ac enwau torf o ffryndiau
Boreuddydd mwyn, dinam.

Mi es am dro i'r capel,
Anwylaf yw i fil,
Lle dysgais fyn'd a'm hadnod
I'r cwrdd a'r Ysgol Sul;
Mi holais dan y pulpud—
Ble mae'r proffwydi glân
A welais gynt yn llosgi
O'i fewn yn ddwyfol dân?

Y seddau yma godent
Wynebaw ger fy mron,
Hen seintiau haner canrif,
Colofnau'r deml hon;
A d'wedais wrth fy nghalon,
Y tadau nid y'nt mwy,
Y nef ar hyn agorodd,
A gwaeddais—Dacw hwy.

Deffroais o fy mreuddwyd,
A'r dydd oedd ar y wlad,
Dechreuais feddwl allan
Y freuddwyd mewn tristhad;

Deallais wedi hyny
Nad oedd y freuddwyd brudd
Ond gweledigaeth noswaith
O wrioneddau'r dydd.

Penygraig.
G. JAMES.

Cân y Dwyfundodiaid.

Rhyw fyrdd a mwy na hyny,
'Does neb all ddweyd ond Duw;
Yw haeddiant Crist yn drymach
Na phechod dynolryw:
Pe buasai yn yr arfaeth
I fyn'd i uffern dân,
Fe olch'sai'r holl gythreuliaid
I gyd yu berffaith lân.

Er cwrdd â geiriau newydd,
I roddi ei glod i ma's,
Ac uno â'r holl angelion,
Ac etifeddion gras;
Heb enwi dim o'r unpeth
Ond unwaith yn y gân,
Hyd eithaf tragwyddoldeb,
'Ddaw 'glod E' byth yn mla'n.

Pe bai angelion nefoedd
Bob un yn myn'd yn fil,
Ac enill rhyw fyrddiynau
Bob mynyd yn y sgil,
I roddi ei glod Ef allan
Am farw ar y pren,
Hyd eithaf tragwyddoldeb,
'Ddoi dim o'r gwaith i ben.

'Tai sant am bob glaswelltyn
Sydd ar y ddaear lawr,
A mil am bob tywodyn
Sy' ar fin y moroedd mawr,
Tafodau gan y rhei'ny
Fwy na rhifedi'r dail,—
Rhy fach i ddweyd gogoniant
Sy'n haeddiant *Adda'r ail*.

'Tai un o'r cor nefolaidd
Yn dod o'r nef i lawr
I rifo llwch y ddaear
A gwlith y borau wawr,
Fe allai wneuthur hyny
Mewn 'chydig iawn o bryd,
Dweyd haner haeddiant Iesu
Nid all y cor i gyd.

Dywedodd Duw ei Hunan
Wrth Abram yn ddiffael,
Lai lai i arbed Sodom,
Pe buasent yno i'w cael;
Ni dd'wedodd, ac ni ddywed,
Wrth un pechadur trist,
Ddim llai i gadw enaid
Na haeddiant Iesu Grist.

Mae dyndod glân i'w weled
Yn mherson Iesu hardd,
Pan ddaeth y milwyr ato,
A'i weled yn yr ardd,—
Eu cwympto 'ngwysg eu cefnau
A gair o'i enau, clyw,

Sy'n dangos i ni'n eglur
Ei fod yn gywir Dduw.

Mae 'ddoliad iddo'n perthyn,
'Nol dim ddeallais i,
Gan holl drigolion daear,
A lluoedd nefoedd fry:
Os gwir a dd'wed y Beibl,
Sef genau'r Ysbryd Glân,
Pa fodd gall Dwyfundodiaid
I ddwyn eu credo 'mla'n?

Fe rodd y Tad ei Hunan
Y cyfan yn ei law,
Sydd yn y nef a'r ddaear,
A chymaint ag a ddaw:
Athrawiaeth gyfeiliornus,
I'w chredu nid oes llun,
I'r Duw anfeidrol *fentro*
Y rhai'n yn nwyllaw dyn!

Os credai'r Dwyfundodiaid,
Rhaid i mi ddwyn yn mla'n
Ryw grefydd groes i'r Beibl,
A iaith yr Ysbryd Glân,
Sy'n dweyd mai'n enw'r Iesu
Y plyga pawb o'r bron,
Sydd yn y nef a'r ddaear,
A than y ddaear hon.

Os nad oedd ond creadur,
Mae gan iuddewon sail
I ddweyd yn ngwyneb Beibl
Na ddaeth mo *Adda'r ail*:
Yr achos fod y rhei'ny
Yn gwrthod Iesu, clyw,
Yw eisieu gallu credu
Ei fod yn berffaith Dduw.

'Dyw'r Tad o ran ei Berson
Yn barnu neb o'r byd;
Fe rodd bob barn yn gryno
Yn nwyllaw'r Mab i gyd:
Os gwir dd'wed Dwyfundodiaid,
Nad oedd ond Dyndod, clyw,
Rhaid iddo farnu'r Beibl
Am ddweyd ei fod yn Dduw.

Mi wn i angeu gredu
Am Iesu ar y gro's
'Run peth a'r Dwyfundodiaid,
Mai Dyn oedd e'n ddi-os;
Newidiodd Hwn ei feddwl
Ar foreu'r trydydd dydd,—
Efe oedd wedi'i rwymo,
A'r Iesu'n rhodio'n rhydd.

Cynghora i'r Dwyfundodiaid
I gredu ar sicrach sail
Mai dyn oedd Adda'r cyntaf,
Duw-ddyn yw *Adda'r ail*;
Ei Ddyndod oedd yr aberth
Offrymwyd drosom ni,
A'i Dduwdod oedd yr allor
A'i daliai ar Galfari.

Nid all'sai Duw dim dyoddef,
'Doedd ganddo Ef ddim gwa'd,—
Heb ollwng gwaed, medd Beibl,
'Doedd dim foddlonai'r Tad;
Ei gyfraith lân droseddwyd,
A'r bai oedd ar y dyn,—
Cyn gwneud y rhwyg i fyny,
Rhaid clwyfo'r Mab ei Hun.

O credwch fod yr Iesu

Mor uchel Dduw a'r Tad,
Mor isel Ddyn a ninau,
Yn meddu cig a gwa'd;
Bydd 'rundes yn rhyfeddod
I dragwyddoldeb hir,—
'Dall neb ei gyflawn ddirnad,
Ac eto mae yn wir.

'Rwy'n credu iddo ddyfod
O gariad lawr o'r nef,
'Rwy'n credu fod y Duwdod
Yn wastad ynddo Ef;
'Rwy'n credu fod e'n ddigon
I ateb cais y Tad,
A bod maddeuant cyflawn
I'r duaf yn ei wa'd.

Dych'mygaf wel'd angelion
A'u calon bron yn brudd,
Wrth fyn'd i uffern obry
I ro'i cadwynau'n rhydd,
I ollwng diafliaid allan,
Fwy na rhifedi'r dail,
I fynydd bach Calfaria,
I brofi'r *Adda'r ail*.

Dych'mygaf wei'd cyfiawnder
A'i filiau yno'n llawn,
A'r gyfraith lân droseddwyd
Yn gwaeddi, Rhaid cael Iawn;
A'r Tad yn cilio o'r golwg,
A'r Iesu ar y pren,—
Pa ryfedd bod i'r haulwen
Dair awr i guddio'i ben!

Dych'mygaf weli'd cythreuliaid
'N dynwared llawenhau,
Fod uffern yn agored,
A'r nefoedd wedi'i chau,
A'r Gwr a wnaeth y cyfan
Yn hongian ar y gro's,
A'r haul yn cuddio'i wyneb,
Nes gyru'r dydd yn nos.

Dych'mygaf wel'd ysbrydion
Y cyfiawn aeth i'r nef
Yn plygu lawr yn fynych
I edrych arno Ef,
A bron a gwaeddi allan—
Os Iesu gyll y dydd,
Cawn fyned oll i garchar
Na dde'wn ni byth yn rhydd.

Mae'r Gair yn dweyd i'r meini
I holli fach a mawr,
A llen y deml rwygo
O fyny hyd i lawr,
A'r beddau ddechreu rhwygo,
A'r meirw neidio'n rhydd,—
Mae'n arwydd digon goleu
I angeu golli'r dydd.

A swm y gair Gorphenwyd,
Pan floeddiwyd ganddo Ef,
A gauodd ddrysau uffern,
Agorodd byrth y nef,
A dynodd o garcharau
Fyrddiynau i fod yn rhydd,
Trodd ddyffryn cysgod angeu
Yn hyfryd foreu ddydd.

'Does feddyg ar y ddaear,
Nac hefyd yn y nef,
'Mhlith dynion nac angelion,
Gyffelyb iddo Ef;
Gall symud pechod chwerw,

A chodi'r marw'n fyw,—
Anturiaf fy enaid arno,
'Rwy'n credu fod e'n fyw.

'Ddaeth barn y Dwyfundodiaid
Erioed i uffern, clyw,
Maent yno'n rhwym i gredu
Fod Iesu Grist yn Dduw;
Ac yn y nefoedd oleu
Diamheu nad oes un
Nad ydyw'n moli'n wastad
Y Duwdod yn y Dyn.

Cymerwch eich cynghori
Gan Lywydd dae'r a nef,
I chwilio'r Ysgrythyrau,
Sy'n tystio am dano Ef;
A pheidio credu'r diafol,
Peth annymunol yw,
Bod neb yn beiddio gwadu
Y peth a dd'wedodd Duw.

Y man ca'dd Satan fantais
Ar ddynion yn yr ardd,
Pan dwyllwyd Adda i fwyta
O'r pren oedd wedi ei wa'rdd
Canlyniad hyn sy'n effaith
Hyd yma ar gyflwr dyn,
Y diafol rhydd e'i gredu
Yr hyn ni chred ei hun.

OWAIN DAFYDD.

Gosodir y gân hon i fewn am fod ei hawdwr yn un o Frodorion y Mynydd Du.

*** END OF THE PROJECT GUTENBERG EBOOK CERDDI'R MYNYDD DU ***

Updated editions will replace the previous one—the old editions will be renamed.

Creating the works from print editions not protected by U.S. copyright law means that no one owns a United States copyright in these works, so the Foundation (and you!) can copy and distribute it in the United States without permission and without paying copyright royalties. Special rules, set forth in the General Terms of Use part of this license, apply to copying and distributing Project Gutenberg™ electronic works to protect the PROJECT GUTENBERG™ concept and trademark. Project Gutenberg is a registered trademark, and may not be used if you charge for an eBook, except by following the terms of the trademark license, including paying royalties for use of the Project Gutenberg trademark. If you do not charge anything for copies of this eBook, complying with the trademark license is very easy. You may use this eBook for nearly any purpose such as creation of derivative works, reports, performances and research. Project Gutenberg eBooks may be modified and printed and given away—you may do practically ANYTHING in the United States with eBooks not protected by U.S. copyright law. Redistribution is subject to the trademark license, especially commercial redistribution.

START: FULL LICENSE
THE FULL PROJECT GUTENBERG LICENSE
PLEASE READ THIS BEFORE YOU DISTRIBUTE OR USE THIS WORK

To protect the Project Gutenberg™ mission of promoting the free distribution of electronic works, by using or distributing this work (or any other work associated in any way with the phrase “Project Gutenberg”), you agree to comply with all the terms of the Full Project Gutenberg™ License available with this file or online at www.gutenberg.org/license.

Section 1. General Terms of Use and Redistributing Project Gutenberg™ electronic works

1.A. By reading or using any part of this Project Gutenberg™ electronic work, you indicate that you have read, understand, agree to and accept all the terms of this license and intellectual property (trademark/copyright) agreement. If you do not agree to abide by all the terms of this agreement, you must cease using and return or destroy all copies of Project Gutenberg™ electronic works in your possession. If you paid a fee for obtaining a copy of or access to a Project Gutenberg™ electronic work and you do not agree to be bound by the terms of this agreement, you may obtain a refund from the person or entity to whom you paid the fee as set forth in paragraph 1.E.8.

1.B. “Project Gutenberg” is a registered trademark. It may only be used on or associated in any way with an electronic work by people who agree to be bound by the terms of this agreement. There are a few things that you can do with most Project Gutenberg™ electronic works even without complying with the full terms of this agreement. See paragraph 1.C below. There are a lot of things you can do with Project Gutenberg™ electronic works if you follow the terms of this agreement and help preserve free future access to Project Gutenberg™ electronic works. See paragraph 1.E below.

1.C. The Project Gutenberg Literary Archive Foundation (“the Foundation” or PGLAF), owns a compilation copyright in the collection of Project Gutenberg™ electronic works. Nearly all the individual works in the collection are in the public domain in the United States. If an individual work is unprotected by copyright law in the United States and you are located in the United States, we do not claim a right to prevent you from copying, distributing, performing, displaying or creating derivative works based on the work as long as all references to Project Gutenberg are removed. Of course, we hope that you will support the Project Gutenberg™ mission of promoting free access to electronic works by freely sharing Project Gutenberg™ works in compliance with the terms of this agreement for keeping the Project Gutenberg™ name associated with the work. You can easily comply with the terms of this agreement by keeping this work in the same format with its attached full Project Gutenberg™ License when you share it without charge with others.

1.D. The copyright laws of the place where you are located also govern what you can do with this work. Copyright laws in most countries are in a constant state of change. If you are outside the United States, check the laws of your country in addition to the terms of this agreement before downloading, copying, displaying, performing, distributing or creating derivative works based on this work or any other Project Gutenberg™ work. The Foundation makes no representations concerning the copyright status of any work in any country other than the United States.

1.E. Unless you have removed all references to Project Gutenberg:

1.E.1. The following sentence, with active links to, or other immediate access to, the full Project Gutenberg™ License must appear prominently whenever any copy of a Project Gutenberg™ work (any work on which the phrase “Project Gutenberg” appears, or with which the phrase “Project Gutenberg” is associated) is accessed, displayed, performed, viewed, copied or distributed:

This eBook is for the use of anyone anywhere in the United States and most other parts of the world at no cost and with almost no restrictions whatsoever. You may copy it, give it away or re-use it under the terms of the Project Gutenberg License included with this eBook or online at www.gutenberg.org. If you are not located in the United States, you will have to check the laws of the country where you are located before using this eBook.

1.E.2. If an individual Project Gutenberg™ electronic work is derived from texts not protected by U.S. copyright law (does not contain a notice indicating that it is posted with permission of the copyright holder), the work can be copied and distributed to anyone in the United States without paying any fees or charges. If you are redistributing or providing access to a work with the phrase “Project Gutenberg” associated with or appearing on the work, you must comply either with the requirements of paragraphs 1.E.1 through 1.E.7 or obtain permission for the use of the work and the Project Gutenberg™ trademark as set forth in paragraphs 1.E.8 or 1.E.9.

1.E.3. If an individual Project Gutenberg™ electronic work is posted with the permission of the copyright holder, your use and distribution must comply with both paragraphs 1.E.1 through 1.E.7 and any additional terms imposed by the copyright holder. Additional terms will be linked to the Project Gutenberg™ License for all works posted with the permission of the copyright holder found at the beginning of this work.

1.E.4. Do not unlink or detach or remove the full Project Gutenberg™ License terms from this work, or any files containing a part of this work or any other work associated with Project Gutenberg™.

1.E.5. Do not copy, display, perform, distribute or redistribute this electronic work, or any part of this electronic work, without prominently displaying the sentence set forth in paragraph 1.E.1 with active links or immediate access to the full terms of the Project Gutenberg™ License.

1.E.6. You may convert to and distribute this work in any binary, compressed, marked up, nonproprietary or proprietary form, including any word processing or hypertext form. However, if you provide access to or distribute copies of a Project Gutenberg™ work in a format other than “Plain Vanilla ASCII” or other format used in the official version posted on the official Project Gutenberg™ website (www.gutenberg.org), you must, at no additional cost, fee or expense to the user, provide a copy, a means of exporting a copy, or a means of obtaining a copy upon request, of the work in its original “Plain Vanilla ASCII” or other form. Any alternate format must include the full Project Gutenberg™ License as specified in paragraph 1.E.1.

1.E.7. Do not charge a fee for access to, viewing, displaying, performing, copying or distributing any Project Gutenberg™ works unless you comply with paragraph 1.E.8 or 1.E.9.

1.E.8. You may charge a reasonable fee for copies of or providing access to or distributing Project Gutenberg™ electronic works provided that:

- You pay a royalty fee of 20% of the gross profits you derive from the use of Project Gutenberg™ works calculated using the method you already use to calculate your applicable taxes. The fee is owed to the owner of the Project Gutenberg™ trademark, but he has agreed to donate royalties under this paragraph to the Project Gutenberg Literary Archive Foundation. Royalty payments must be paid within 60 days following each date on which you prepare (or are legally required to prepare) your periodic tax returns. Royalty payments should be clearly marked as such and sent to the Project Gutenberg Literary Archive Foundation at the address specified in Section 4, "Information about donations to the Project Gutenberg Literary Archive Foundation."
- You provide a full refund of any money paid by a user who notifies you in writing (or by e-mail) within 30 days of receipt that s/he does not agree to the terms of the full Project Gutenberg™ License. You must require such a user to return or destroy all copies of the works possessed in a physical medium and discontinue all use of and all access to other copies of Project Gutenberg™ works.
- You provide, in accordance with paragraph 1.F.3, a full refund of any money paid for a work or a replacement copy, if a defect in the electronic work is discovered and reported to you within 90 days of receipt of the work.
- You comply with all other terms of this agreement for free distribution of Project Gutenberg™ works.

1.E.9. If you wish to charge a fee or distribute a Project Gutenberg™ electronic work or group of works on different terms than are set forth in this agreement, you must obtain permission in writing from the Project Gutenberg Literary Archive Foundation, the manager of the Project Gutenberg™ trademark. Contact the Foundation as set forth in Section 3 below.

1.F.

1.F.1. Project Gutenberg volunteers and employees expend considerable effort to identify, do copyright research on, transcribe and proofread works not protected by U.S. copyright law in creating the Project Gutenberg™ collection. Despite these efforts, Project Gutenberg™ electronic works, and the medium on which they may be stored, may contain "Defects," such as, but not limited to, incomplete, inaccurate or corrupt data, transcription errors, a copyright or other intellectual property infringement, a defective or damaged disk or other medium, a computer virus, or computer codes that damage or cannot be read by your equipment.

1.F.2. LIMITED WARRANTY, DISCLAIMER OF DAMAGES - Except for the "Right of Replacement or Refund" described in paragraph 1.F.3, the Project Gutenberg Literary Archive Foundation, the owner of the Project Gutenberg™ trademark, and any other party distributing a Project Gutenberg™ electronic work under this agreement, disclaim all liability to you for damages, costs and expenses, including legal fees. YOU AGREE THAT YOU HAVE NO REMEDIES FOR NEGLIGENCE, STRICT LIABILITY, BREACH OF WARRANTY OR BREACH OF CONTRACT EXCEPT THOSE PROVIDED IN PARAGRAPH 1.F.3. YOU AGREE THAT THE FOUNDATION, THE TRADEMARK OWNER, AND ANY DISTRIBUTOR UNDER THIS AGREEMENT WILL NOT BE LIABLE TO YOU FOR ACTUAL, DIRECT, INDIRECT, CONSEQUENTIAL, PUNITIVE OR INCIDENTAL DAMAGES EVEN IF YOU GIVE NOTICE OF THE POSSIBILITY OF SUCH DAMAGE.

1.F.3. LIMITED RIGHT OF REPLACEMENT OR REFUND - If you discover a defect in this electronic work within 90 days of receiving it, you can receive a refund of the money (if any) you paid for it by sending a written explanation to the person you received the work from. If you received the work on a physical medium, you must return the medium with your written explanation. The person or entity that provided you with the defective work may elect to provide a replacement copy in lieu of a refund. If you received the work electronically, the person or entity providing it to you may choose to give you a second opportunity to receive the work electronically in lieu of a refund. If the second copy is also defective, you may demand a refund in writing without further opportunities to fix the problem.

1.F.4. Except for the limited right of replacement or refund set forth in paragraph 1.F.3, this work is provided to you 'AS-IS', WITH NO OTHER WARRANTIES OF ANY KIND, EXPRESS OR IMPLIED, INCLUDING BUT NOT LIMITED TO WARRANTIES OF MERCHANTABILITY OR FITNESS FOR ANY PURPOSE.

1.F.5. Some states do not allow disclaimers of certain implied warranties or the exclusion or limitation of certain types of damages. If any disclaimer or limitation set forth in this agreement violates the law of the state applicable to this agreement, the agreement shall be interpreted to make the maximum disclaimer or limitation permitted by the applicable state law. The invalidity or unenforceability of any provision of this agreement shall not void the remaining provisions.

1.F.6. INDEMNITY - You agree to indemnify and hold the Foundation, the trademark owner, any agent or employee of the Foundation, anyone providing copies of Project Gutenberg™ electronic

works in accordance with this agreement, and any volunteers associated with the production, promotion and distribution of Project Gutenberg™ electronic works, harmless from all liability, costs and expenses, including legal fees, that arise directly or indirectly from any of the following which you do or cause to occur: (a) distribution of this or any Project Gutenberg™ work, (b) alteration, modification, or additions or deletions to any Project Gutenberg™ work, and (c) any Defect you cause.

Section 2. Information about the Mission of Project Gutenberg™

Project Gutenberg™ is synonymous with the free distribution of electronic works in formats readable by the widest variety of computers including obsolete, old, middle-aged and new computers. It exists because of the efforts of hundreds of volunteers and donations from people in all walks of life.

Volunteers and financial support to provide volunteers with the assistance they need are critical to reaching Project Gutenberg™'s goals and ensuring that the Project Gutenberg™ collection will remain freely available for generations to come. In 2001, the Project Gutenberg Literary Archive Foundation was created to provide a secure and permanent future for Project Gutenberg™ and future generations. To learn more about the Project Gutenberg Literary Archive Foundation and how your efforts and donations can help, see Sections 3 and 4 and the Foundation information page at www.gutenberg.org.

Section 3. Information about the Project Gutenberg Literary Archive Foundation

The Project Gutenberg Literary Archive Foundation is a non-profit 501(c)(3) educational corporation organized under the laws of the state of Mississippi and granted tax exempt status by the Internal Revenue Service. The Foundation's EIN or federal tax identification number is 64-6221541. Contributions to the Project Gutenberg Literary Archive Foundation are tax deductible to the full extent permitted by U.S. federal laws and your state's laws.

The Foundation's business office is located at 809 North 1500 West, Salt Lake City, UT 84116, (801) 596-1887. Email contact links and up to date contact information can be found at the Foundation's website and official page at www.gutenberg.org/contact

Section 4. Information about Donations to the Project Gutenberg Literary Archive Foundation

Project Gutenberg™ depends upon and cannot survive without widespread public support and donations to carry out its mission of increasing the number of public domain and licensed works that can be freely distributed in machine-readable form accessible by the widest array of equipment including outdated equipment. Many small donations (\$1 to \$5,000) are particularly important to maintaining tax exempt status with the IRS.

The Foundation is committed to complying with the laws regulating charities and charitable donations in all 50 states of the United States. Compliance requirements are not uniform and it takes a considerable effort, much paperwork and many fees to meet and keep up with these requirements. We do not solicit donations in locations where we have not received written confirmation of compliance. To SEND DONATIONS or determine the status of compliance for any particular state visit www.gutenberg.org/donate.

While we cannot and do not solicit contributions from states where we have not met the solicitation requirements, we know of no prohibition against accepting unsolicited donations from donors in such states who approach us with offers to donate.

International donations are gratefully accepted, but we cannot make any statements concerning tax treatment of donations received from outside the United States. U.S. laws alone swamp our small staff.

Please check the Project Gutenberg web pages for current donation methods and addresses. Donations are accepted in a number of other ways including checks, online payments and credit card donations. To donate, please visit: www.gutenberg.org/donate

Section 5. General Information About Project Gutenberg™ electronic works

Professor Michael S. Hart was the originator of the Project Gutenberg™ concept of a library of electronic works that could be freely shared with anyone. For forty years, he produced and distributed Project Gutenberg™ eBooks with only a loose network of volunteer support.

Project Gutenberg™ eBooks are often created from several printed editions, all of which are confirmed as not protected by copyright in the U.S. unless a copyright notice is included. Thus, we do not necessarily keep eBooks in compliance with any particular paper edition.

Most people start at our website which has the main PG search facility: www.gutenberg.org.

This website includes information about Project Gutenberg™, including how to make donations to

the Project Gutenberg Literary Archive Foundation, how to help produce our new eBooks, and how to subscribe to our email newsletter to hear about new eBooks.